www.breaksnorthwales.co.uk

www.adventure-northwales.com

www.golf-northwales.co.uk

www.walkingnorthwales.co.uk

www.moviemapnorthwales.co.uk

www.eventsnorthwales.co.uk

www.gardensnorthwales.co.uk

www.attractionsnorthwales.co.uk

www.walledtowns.co.uk

www.giantsnorthwales.co.uk

egroeso

bwletin electronig gan
Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru

Denu twristiaid i'r we ranbarthol

01745 589020
www.tpnw.org

▶ tudalen nesaf

Denu twristiaid i'r we ranbarthol

Mae ymwelwyr rhithwir yn troi'n ymwelwyr go iawn yng Ngogledd Cymru, diolch i lwyddiant ymgyrch farchnata fawr ar-lein.

Mewngofnododd rhyw 170,000 o "ymwelwyr unigryw" â gwefan sy'n hyrwyddo atyniadau'r rhanbarth.

Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru sy'n ariannu'r ymgyrch, sef y corff sy'n gyfrifol am ddatblygiad strategol yr economi ymwelwyr.

Mae disgwyl y bydd yn chwistrellu £300,000 i economi'r rhanbarth – a'r cyfan am fuddsoddiad o ddim ond £15,000.

Un rheswm am hynny yw bod mwy a mwy o bobl sy'n dod ar eu gwyliau ac ar deithiau undydd yn troi at atyniadau ymwelwyr yn hytrach na mynd ar wyliau tramor drud.

Yn ôl yr ymchwil mae gwefan www.attractionsnorthwales.co.uk yn chwarae rhan allweddol mewn denu ymwelwyr i'r rhanbarth.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf roedd nifer yr ymwelwyr unigryw â'r wefan bron ddwywaith y targed o 100,000.

Mae talebau y gellir eu lawrlwytho, sy'n cynnig popeth o fynediad rhatach i fynediad am ddim i blant i rai o'r atyniadau ar y wefan, yn profi i fod yn boblogaidd dros ben.

Comisiynodd y Bartneriaeth Twristiaeth Arolwg Gwe ochr yn ochr â'i Phrosiect Ymchwil Ymwelwyr ei hun.

Ac mae Cyfarwyddwr Strategaeth Rhanbarthol y sefydliad, Dewi Davies, wrth ei fodd gyda'r canlyniadau.

Dywedodd Mr Davies: "Mae'n amlwg ein bod yn symud i'r cyfeiriad iawn. Mae ein gwaith ymchwil yn dangos bod canran helaeth o'r boblogaeth wedi penderfynu peidio â mynd ar wyliau tramor drud, oherwydd yr hinsawdd economaidd sydd ohoni yma yn y DU, ynghyd efallai â'r gyfradd gyfnewid wael ar gyfer yr Euro, a'u bod yn hytrach yn dewis ymweld â Gogledd Cymru.

Yn y darlun, o'r chwith, Esther Roberts, Twristiaeth Gogledd Cymru, Angie Lowe o Ask For Research, Dewi Davies, PTGC, Stephen Bristow, Y Gelli Gyffwrdd, Simon Cotton ac Emma Hanson o View Creative.

"Mae ansawdd, amrywiaeth a fforddiadwyedd yr atyniadau sydd yma'n golygu ein bod yn denu nifer fawr o deuluoedd sydd â phlant ifanc ac mae'n ymddangos bod ein hymwelwyr yn fodlon dros ben â'r hyn maen nhw'n ei gael am eu punt yma yng Ngogledd Cymru.

"Rydym yn dal i weithio'n agos gyda'n partneriaid yn cynnwys Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, awdurdodau lleol a Thwristiaeth Gogledd Cymru.

Yn ôl yr Arolwg Ymchwil Ymwelwyr, daw'r rhan fwyaf o bobl sy'n dewis ymweld ag atyniadau'r rhanbarth o Loegr, ac o Swydd Gaer, Glannau Mersi a Swydd Gaerhirfryn yn arbennig. Plant yw eu hanner bron."

"Mae Gogledd Cymru yn ardal sy'n apelio'n fawr at bartïon o ymwelwyr yn hytrach nag unigolion. Mae'n arwyddocaol fod dros hanner y grwpiau ymwelwyr yn deuluoedd.

"Mae'r ffocws ar grwpiau teuluol ac apêl Gogledd Cymru i bob grŵp oedran yn rhoi gwybodaeth allweddol i ni er mwyn datblygu a darparu cyfleusterau perthnasol i gefnogi ymwelwyr."

Yn ôl y Prosiect Ymchwil, fodd bynnag, mae'r tywydd yn cael effaith fawr ar ymwelwyr ac mae bron i dri chwarter ohonynt yn edrych ar ragolygon y tywydd cyn penderfynu ymweld ag atyniad.

Ychwanegodd Swyddog Marchnata Gweithredol y Bartneriaeth Twristiaeth, Carole Startin: "Er na all atyniadau ddylanwadu'n uniongyrchol ar y tywydd, mae codi ymwybyddiaeth o'r dewisiadau sydd ar gael yn yr atyniadau hynny mewn tywydd drwg yn helpu i leihau'r effaith negyddol ac yn sicrhau bod ymwelwyr yn fodlon.

"Oherwydd dylanwad mynyddoedd Eryri rydym yn aml yn gweld bod arfordir Gogledd Cymru yn cael tywydd gwell o lawer, er ei bod hi'n dywydd gwael draw o'r glannau, ac nid yw rhagolygon tywydd rhanbarthol cyffredinol bob amser yn tynnu sylw at hynny.

"Ein nod hefyd yn parhau i anfon negeseuon e-bost ar themâu penodol er mwyn annog mwy fyth o bobl i ymweld â Gogledd Cymru.

"Wrth gwrs ni fydd pob un sy'n ymweld ag atyniadau Gogledd Cymru yn edrych ar y wefan ac mae ein hymgyrch daflenni yn parhau i gael effaith fawr ar nifer yr ymwelwyr.

"Mae'r gwaith ymchwil yn dangos bod bron hanner yr ymwelwyr wedi edrych ar daflenni naill ai cyn neu ar ôl cyrraedd y rhanbarth."

Cert sglefrio'r Ddraig Werdd yn y Gelli Gyffwrdd